**Cyfeirnod:** IR816

**Dyddiad cyhoeddi:** 16 Mawrth 2022

# Dogfennau TGCh

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 18 Chwefror 2022, lle gofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â dogfennau TGCh.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn print trwm, gan nodi ein hymatebion cyfatebol:


**Y dogfennau TGCh sydd eu hangen arnaf yw'r diweddariad mwyaf diweddar (dogfennau o 2021 ymlaen)**

**Hoffwn gael y dogfennau canlynol:**

**1. Strategaeth TGCh/Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg/Systemau Gwybodaeth- Strategaeth neu gynlluniau'r Adran TG, sy'n amlygu eu hamcanion presennol a'u hamcanion ar gyfer y dyfodol.**

Gweler y poster Gweledigaeth Ddigidol atodedig.

**2. Siart Sefydliad TGCh - Dogfen weledol sy'n cyflwyno strwythur yr adran TG, gan gynnwys enw a theitlau swyddi. Os na ellir anfon hwn, a fyddech cystal â gweithio tuag at strwythur gyda theitlau swyddi.**



**3. Cynllun Blynyddol neu Gynllun Busnes TGCh- Yn debyg i'r Strategaeth TGCh, ond gyda mwy o ffocws blynyddol.**

Nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn.

**4. Rhaglen/cyllideb Gyfalaf TGCh - Dogfen sy'n dangos y gyllideb ariannol ar gyfer prosiectau'r presennol a'r dyfodol.**

| Enw'r Ased | Cyllideb wreiddiol | Cyllideb ddiwygiedig 2021/22 |
|---|---|---|
| Strategaeth ddigidol | £150,000 | £0 |
| Cost sefydlu untro Govroam | £0 | £0 |
| 100 o liniaduron Dell Latitude 5420 | £0 | £69,800 |
| Gwasanaeth cyflogres itrent | £55,000 | £55,000 |
| Platfform Archwilio Ariannol | £37,000 | £17,000 |
| SMART Cam 2 | £9,000 | £14,000 |
| Adnoddau ac amserlenni | £30,000 | £0 |
| Cyfres offer ansawdd ADG | £0 | £15,000 |

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau ynghylch y modd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,
Y Swyddog Gwybodaeth

## Case for change

Our world is becoming increasingly digitised. Our corporate strategy commits us to keeping on top of new data and tech and the Cutting Edge report says we need an ambitious vision of how we want to exploit tech in future. We must adapt to prevent us being left behind, and to enable better, more modern and efficient ways of working

## The future we want

**EASY TO USE**, reliable tech, designed around the user.

**SECURE** systems and data.

**DIGITALLY-ENABLED** ways of working to drive quality, efficiency and wellbeing.


**DIGITAL SKILLS** for all, support from experts.

**COORDINATION** to ensure tech development is ambitious and prioritised.

**SHARING** knowledge, data and ideas internally and externally to make the most of the mass of intelligence we have.

**DATA ANALYTICS** being used routinely in our work to drive assurance, insight and improvement.

**BETTER INTERACTION** with stakeholders, to gather their views and communicate our work using modern techniques.




## Making it happen

- Agile workstreams to explore solutions
- Governance to refresh this vision and oversee delivery
- Dedicated resources

## Sustainable digital principles

**LONG TERM**
Tech is moving fast so our vision will be dynamic and future-focused.

**INTEGRATION**
Digital will be a high-profile 'golden thread' in our other plans/strategies.

**COLLABORATION**
We will learn from others and share ideas with stakeholders by 'working out loud'.

**INVOLVEMENT**
We will proactively involve our staff as well the 'customers' of our work

**DIGITAL FROM THE START**
We will plan our work with digital in mind, rather than retrofitting what we already have for digital.

**TRANSFORMATION**
We aim to transform the way we work. We will do things differently and do different things

## Y dyfodol a ddymunwn

Technoleg gyda'r defnyddiwr wrth wraidd y cynllunio sy'n **HAWDD I'W DDEFNYDDIO** a dibynadwy

Systemau a data **DIOGEL**

Ffyrdd o weithio wedi'u **GALLUOGI'N DDIGIDOL** i ysgogi ansawdd, effeithlonrwydd a llesiant

**SGILIAU DIGIDOL** i bawb, cymorth gan arbenigwyr.

**CYDLYNU** i sicrhau bod datblygiad technoleg yn uchelgeisiol ac wedi'i flaenoriaethu.

**RHANNU** gwybodaeth, data a syniadau yn fewnol ac yn allanol i wneud y mwyaf o'r sylwedd o wybodaeth sydd gennym.

**DADANSODDI DATA** yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn ein gwaith i ysgogi sicrwydd, dealltwriaeth a gwelliant.

**GWELL RHYNGWEITHIO** â rhanddeiliaid, i gasglu eu barn a chyfathrebu ein gwaith gan ddefnyddio technegau modern.

## Yr achos dros newid

Mae ein byd yn dod yn fwyfwy digidol. Mae ein strategaeth gorfforaethol yn ein hymrwymo i ddeall data a thechnoleg newydd ac mae'r adroddiad Archwilio Arloesol yn dweud bod angen gweledigaeth uchelgeisiol arnom o ran sut rydym am fanteisio ar dechnoleg yn y dyfodol. Rhaid i ni addasu er mwyn osgoi cael ein gadael ar ôl, ac er mwyn galluogi ffyrdd mwy modern ac effeithlon o weithio.

## Egwyddorion digidol cynaliadwy

**HIRDYMOR**
Mae technoleg yn symud yn gyflym felly bydd ein gweledigaeth yn ddynamig ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.


**INTEGREIDDIO**
Bydd digidol yn 'edefyn aur' proffil uchel yn ein cynlluniau/strategaethau eraill.

**CYDWEITHIO**
Byddwn yn dysgu gan eraill ac yn rhannu syniadau â rhanddeiliaid drwy 'weithio'n swnllyd'.

**CYFRANNU**
Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys ein staff yn ogystal â 'chwsmeriaid' ein gwaith.

**DIGIDOL O'R DECHRAU**
Byddwn yn cynllunio ein gwaith gyda digidol mewn cof, yn hytrach nag ôl-osod yr hyn sydd gennym eisoes ar gyfer digidol.

**TRAWSNEWID**
Ein nod yw trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio. Byddwn yn gwneud pethau'n wahanol ac yn gwneud pethau gwahanol.




## Gwireddu'r weledigaeth

- Ffrydiau gwaith ystwyth i archwilio atebion
- Llywodraethant i adnewyddu'r weledigaeth hon a goruchwylio datblygiad
- Adnoddau penodol